<u>Golygfa Pedwar</u>

Cyflwynwyr 1a2 Helo a Chroeso i 'Rhyw Fath o Ornest!'

Cyflwynydd 1 Y nod ydi bod pob ymgeisydd yn llwyddo mewn nifer o dasgau er mwyn cyrraedd at y 'ffrwyth gwaharddedig'

Rosie a Chloe Ooooooh!

| | |
|---|---|
| C 2 | Y cystadleuydd cyntaf heno ydy bachgen o Rhyl – rhowch groeso i Ben. Helo Ben, sut wyt ti heno? |
| Ben | Da iawn diolch, gwych. |
| C.2 | Wyt ti'n mynd i ennill heno? |
| Ben | Wel yndw siŵr! |
| C.2 | A pwy ydi'r hogan sbesial heno? |
| Ben | Dw'i di dŵad a nghariad i, Chloe. |
| C1 a 2 | Aaaah, neis! |
| C.1 | Mae ein hail gystadleuydd ni heno hefyd yn dŵad o Rhyl - rhowch groeso cynnes i Michael. Helo Michael, sut wyt ti heno? |
| Mike | Dwi'n teimlo'n grêt diolch |
| C.1 | Wyt ti'n teimlo'n hyderus y medri di'n ennill? |
| Mike | Wel wrth gwrs! |
| C.1 | A pwy sydd wedi dod yma efo chdi heno? |
| Mike | Rosie, fy nghariad i. |
| C1a2 | Aaaah lyfli |
| C.2 | Iawn. Tasg un am y pwynt cynta'. Be' fysa chi'n ddeud wrth gyfarfod hogan am y tro cyntaf ac yn trio cael ei sylw hi? Ben? |
| Ben | "Tisio mynd hannar ar fabi efo fi?" |
| C.1 | Uumm - iawn. Rŵan - Michael. |

| | |
|---|---|
| Mike | "Ydi'r haul wedi dŵad allan neu chdi sydd newydd wenu?" |
| C.1 | Ac mae'r pwynt o'r rownd yna yn mynd i Michael - da iawn Michael. A'r ail dasg am yr ail bwynt heno. Da chi wedi cael sylw'r ferch, rŵan sut 'da chi'n mynd i'w chael hi i roi ei breichiau amdano' chi? |
| C.2 | Yn gynta', Ben |
| | (Ben yn methu) |
| C.1 | Sori Ben – dim digon da . Nesa, Michael. |
| | (Mike yn llwyddo) |
| P.1 | Da iawn Michael. |
| P.2 | Am y trydydd pwynt, sut fysa' chi'n dwyn cusan slei ganddi hi. Ben? |
| | (Ben yn methu) |
| C.1 | Dim digon da yn anffodus Ben. Rŵan - Michael. |
| Mike | Rosie, be di hwnna ar dy wefusau di? (rhoi sws iddi) Oh, fi! |
| C.1 | Da iawn Michael. Pwynt arall i ti. Reit, am y pwynt olaf heno rhaid i bob cystadleuydd drio cael y ffrwyth gwaharddedig gan eu cariad. OND maen nhw ar raff 'bungee' - felly fydd hi ddim yn hawdd. Iawn ferched, i'ch safleoedd plîs. |
| C.2 | Pum eiliad yr un: 5 4 3 2 1 ewch! |

(Siarad cyffredinol wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, Mike yn ennill)

| | |
|---|---|
| C.1 | Da iawn Michael! |
| C.2 | Tyrd draw Ben. Roedda' ti'n gneud mor dda. Be ddigwyddodd? |
| Ben | Wel - roedd rhywun yn gwrthod ymuno yn y gêm 'doedd! Eniwe, roedd fy mungee i'n llai na'i un fo, a'i bai hi oedd o! |
| C.1 | Iawn... Michael sut mae'n teimlo i fod yn enillydd? |
| Mike | Ma'n teimlo'n wych! |

C.1 Ac wyt ti'n teimlo'n falch o dy gariad?

Rosie Yndw, mor falch.

C.1 A sut fyddi di'n dathlu heno?

M a R Wel…

C.1 Edrychwch ar yr amser! Ymunwch â ni eto'r wythnos nesa, a cofiwch.....

Pawb Defnyddiwch Gondom!